

Haf o Hwyl

Tasg Arbennig yr
Haf ar gyfer
Llysgenhadon
Cymunedol

Adnodd Gweithiwr
Ieuenctid/
Arweinydd Grŵp



Comisiynydd
Plant
Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Haf o Hwyl – Tasg Hawliau'r Haf

Gwybodaeth ar gyfer Arweinydd y Grŵp / y Gweithiwr Teuencid

Cewch ragor o wybodaeth am yr Haf o Hwyl [yma](#).

Cysylltiadau â hawliau plant:

Erthygl 2, Erthygl 12, Erthygl 15, Erthygl 29 ac Erthygl 31.

Tasg y Llysgenhadon Cymunedol

Tasg y tymor yma yw bod y Llysgenhadon yn cynllunio'u gweithgaredd "Haf o Hwyl" eu hunain. Gallai hynny olygu diwrnod llawn o hwyl yn eich lleoliad neu gyfres o weithgareddau llai. Gall hyn gydweddu â chynlluniau sydd gennych eisoes ar gyfer Gwyliau'r Haf.

Rydyn ni wedi creu pecyn gweithgaredd i Lysgenhadon Cymunedol arwain gwaith cynllunio a chyflwyno eu gweithgaredd Haf o Hwyl. Rydym ni'n awgrymu gweithio gyda'r bobl ifanc i feddwl am beth fydd yn bosib yn eich lleoliad cyn iddyn nhw gychwyn ar eu sesiwn gynllunio.

Nod yr Haf o Hwyl yw cael mwynhad, a does dim angen i'r gweithgareddau mae eich grŵp yn eu cynllunio gostio llawer o arian, os byddan nhw'n costio unrhyw beth o gwbl, na bod angen cyfarpar newydd. Yn eu pecyn gweithgaredd rydym ni wedi atgoffa pobl ifanc na ddylai'r gweithgareddau maen nhw'n eu cynllunio gostio llawer o arian.

Rydym ni wedi cynnwys rhai syniadau ar gyfer gweithgareddau gallai eich grŵp eu cynnal yn y pecyn gweithgaredd. Daeth yr awgrymiadau hyn o'n Panel Ymgynghorol Pobl Ifanc.

Cofiwch rannu eich gweithgareddau gyda ni ar Twitter gan ddefnyddio #HafoHwyl a thagio @complantcymru.



Sut mae cynnal y dasg yn eich lleoliad:

Cam 1: Trefnwch gyfarfod gyda'ch Llysgenhadon a dangos y pecyn gweithgaredd iddyn nhw

Cam 2: Gweithiwch gyda'ch Llysgenhadon i feddwl am unrhyw rwystrau posibl/gweithgareddau nad oes modd eu cynnal ar hyn o bryd

Cam 3: Penderfynwch sut byddwch chi'n casglu syniadau'r bobl ifanc, gallech chi wneud hynny trwy gynnal pleidlais neu trwy ofyn i gynrychiolwyr o'r grŵp rannu eu barn

Cam 4: Dylai Llysgenhadon gynllunio'u gweithgaredd a chyflwyno eu syniadau i chi

Cam 5: Cynhaliwch eich gweithgaredd Haf o Hwyl

Pecyn Gweithgaredd

Yn y [pecyn gweithgaredd](#) rydyn ni wedi darparu'r canlynol ar gyfer y Llysgenhadon:

- Taflen waith ar gyfer cynllunio
- Syniadau ar gyfer sut gallen nhw gynnal pleidlais
- Syniadau ar gyfer gweithgareddau gallen nhw eu cynnal
- Syniadau ar gyfer sut gallen nhw gyflwyno'r wybodaeth i'w gweithiwr cyswllt

Beth sy'n Digwydd yn Lleol?

Efallai byddwch chi am roi syniadau i'r bobl ifanc am beth sy'n digwydd yn lleol yn ystod Gwyliau'r Haf. Gallwch chi wneud hyn trwy gyfeirio pobl ifanc, rhieni a gwarcheidwaid at <https://www.complantcymru.org.uk/haf-o-hwyl-2021/>

Haf o Hwyl - Llyfr Erthygl 31

Trwy gydweithio â Chwarae Cymru, rydyn ni'n creu e-lyfr yn llawn syniadau ar gyfer gêmâu a gweithgareddu difyr am ddim i blant a phobl ifanc roi

cynnig arnyn nhw yn ystod yr haf. Bydd yr e-lyfr yn cynnwys awgrymiadau gan blant a phobl ifanc o bob rhan o Gymru, a bydd ar gael ar ein gwefan ar hyd yr haf.

Gall pobl ifanc gymryd rhan trwy lenwi'r [daflen yma](#), a'i hanfon i post@complantcymru.org.uk neu trwy lenwi'r [ffurflen ar-lein](#).